ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trwyddedu
DYDDIAD:	7 Rhagfyr 2022
SWYDDOG ARWEINIOL:	Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad
SWYDDOG CYSWLLT:	Yr Uwch Swyddog Trwyddedu licensing@denbighshire.gov.uk 01824 706433
PWNC:	Adolygu Datganiad o Egwyddorion - Deddf Gamblo 2005

1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.2 Cynghori Aelodau am yr adolygiad angenrheidiol o Ddatganiad Egwyddorion y Cyngor ar gyfer y Ddeddf Gamblo 2005.

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Yn unol â'r Ddeddf Gamblo 2005 mae'n ofynnol i'r Cyngor adolygu'r Datganiad o Egwyddorion bob tair blynedd.

2.2 Cynhaliwyd adolygiad o'r Datganiad o Egwyddorion presennol ac ni chynigir unrhyw newidiadau sylweddol, heblaw am rai mân newidiadau ac ychwanegiadau sydd wedi eu crynhoi yn Atodiad A a'u hamlygu mewn coch ar y Datganiad o Egwyddorion drafft sydd ynghlwm yn Atodiad B.

3. PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD

3.1 Adran 349, Deddf Gamblo 2005

4. GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Wrth bennu'r Datganiad o Egwyddorion, mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried amcanion trwyddedu Ddeddf Gamblo 2005 a 'Chanllaw i Awdurdodau Trwyddedu' y Comisiwn Gamblo.

4.2 Mae'r amcanion trwyddedu statudol yn cynnwys:

- Diogelu plant a phobl ddiamddiffyn eraill rhag niwed neu ecsploetiaeth yn sgil gamblo
- Atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd neu anhrefn, yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn neu gael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd, a
- Sicrhau y cynhelir gweithgareddau gamblo mewn modd teg ac agored

4.3 Mae'r Datganiad o Egwyddorion wedi cael ei ddatblygu gan y chwech

Awdurdod Trwyddedu yng Ngogledd Cymru, gan ddod â chysondeb i faterion sy'n ymwneud â materion a swyddogaethau Gamblo.

5. YMGYNGHORI

5.1 I'w gynnal fel rhan o'r broses ar weithredu.

5.2 Ymgynghorir â'r Awdurdodau Cyfrifol canlynol:

- Y Comisiwn Gamblo
- Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Yr Awdurdodau Cynllunio
- Iechyd yr Amgylchedd, Iechyd a Diogelwch a Safonau Masnach
- Gwasanaethau Plant
- Cyllid a Thollau ei Mawrhydi

5.3 Yn ogystal â'r uchod, cysylltir â'r holl ddalwyr trwydded i'w hysbysu am y broses ymgynghori ac i ofyn am eu barn.

6. ARGYMHELLIAD

6.1 Bod Aelodau yn ystyried ac yn cytuno ar gynnwys Datganiad Egwyddorion drafft y Cyngor (Deddf Gamblo 2005) ac yn awdurdodi swyddogion i gynnal ymgynghoriad statudol.